

**Alex (cyfwelydd)**

Rydw i yma gyda rhai o'r prentisiaid sy'n mynd i drafod eu rhaglenni prentisiaid, sut maen nhw'n teimlo o ran bod yn brentis yn y sefyllfa bresennol a thrafod eu profiadau yn fwy cyffredinol. Ydych chi am ddechrau trwy gyflwyno'ch hunain?

**Alice**

lawn. Helo. Fy enw i yw Alice – prentis ail flwyddyn gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

**Max**

Fy enw i yw Max. Rwy'n brentis blwyddyn gyntaf gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

**Emma**

Fi yw Emma, prentis y drydedd flwyddyn gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

**Alex (cyfwelydd)**

Diolch i chi i gyd am ddod ymlaen. Hoffech chi ddechrau trwy ddweud pam y gwnaethoch ddewis dod yn brentis?

**Alice**

lawn. Felly gwnes i astudio at Lefel A yn yr ysgol ac nid oedd gen i wir ddi-ddordeb mewn mynd i'r brifysgol. Roeddwn i wedi astudio mathemateg Lefel A ac wedi mwynhau hynny, felly dechreuais edrych i mewn i brentisiaethau yn seiliedig ar gyllid a dod ar draws yr un yma. Rwy'n hoffi'r syniad o wneud cymhwyster proffesiynol wrth weithio. Roedd gen i ddi-ddordeb mewn gwneud prentisiaeth oherwydd mae'n amlwg eich bod chi'n gwneud swydd ac mae hynny'n mynd i roi llwyth o sgiliau trosglwyddadwy i chi, a fydd yn ddefnyddiol yn hwyrach yn ystod eich gyrfa. Dyna pam y dewisais wneud prentisiaeth.

**Alex (cyfwelydd)**

Ar hynny, a oedd unrhyw sgiliau penodol yr oedd unrhyw un ohonoch yn arbennig o obeithiol i'w dysgu wrth i chi drosglwyddo o addysg, o'ch prentisiaeth, i waith tymor hwy?

**Alice**

Wel, roedd gen i swydd ran amser, felly roedd gen i rai sgiliau trosglwyddadwy, sgiliau cyfathrebu, ond mewn gwirionedd roeddwn i eisiau ceisio datblygu'r rheini ymhellach trwy ddechrau swydd iawn.

**Max**

I mi? Byddwn yn bendant yn dweud yr un rhesymau ag Alice, felly yn ymarferol nid oeddwn i eisiau mynd i ddyled trwy fynd i'r brifysgol, ond roeddwn i eisiau gallu dysgu a datblygu yn ogystal ag ennill fy nghymwysterau, a hefyd rwy'n teimlo fy mod i'n cael cyfleoedd gwahanol trwy ddysgu wrth weithio gyda thîm profiadol a phobl mewn rolau tebyg i fy un i, wrth ddysgu yn y coleg ar yr un pryd, sydd, yn fy marn i, yn werthfawr iawn ac yn rhywbeth na fyddai 100% yn digwydd petawn i'n mynd i'r brifysgol.

**Alex (cyfwelydd)**

Dyna ffordd ddiddorol o edrych arni. Nid oeddwn wedi meddwl am y peth fel ffordd amgen o ddysgu i brifysgol. Wyt ti'n gallu uniaethu â hynny, Emma?

**Emma**

Mae'n debyg fy mod i ychydig yn wahanol yn yr ystyr hwn. Es i i'r Brifysgol a chefais radd mewn addysg. Ond sylweddolais nad dyna'r llwybr yr oeddwn am ei ddilyn a threuliais beth amser mewn sefydliad gwahanol ac edrychais ar wahanol adrannau ac roedd cyllid bob amser yn denu fy sylw. Penderfynais ddilyn llwybr y brentisiaeth oherwydd darganfyddais fod AAT yn debyg i'r wybodaeth sylfaenol ac ar ôl astudio gradd nad oedd yn seiliedig ar gyfrifeg / archwilio, roeddwn i eisiau dechrau o'r dechrau, a datblygu.

**Alex (cyfwelydd)**

A sut wyt ti wedi dygymod ag astudio'r rhaglen?

**Emma**

Mae wedi bod yn dda iawn. Rydym ni'n mynychu'r coleg un diwrnod yr wythnos ac yna mae ein harholiadau'n cael eu hystyried o gwmpas hynny hefyd, sy'n dda iawn yn fy marn i, oherwydd mae'n un diwrnod allan o'r swyddfa bob wythnos. Ac rwy'n credu hefyd, ei bod hi'n haws i ni weithredu'r hyn rydym ni wedi ei ddysgu ochr yn ochr â gwaith oherwydd rydym ni'n dysgu yn gyson bob wythnos. Nid yw'n cael ei rannu fel y cyfryw.

**Alice**

Fel prentis yr ail flwyddyn, rwy'n gwneud AAT Lefel 3, ond rhaid dechrau ar Lefel 2 ac rwy'n teimlo ei bod hi'n bosibl dechrau ar Lefel 2 a gweithio i fyny at Lefel 4. Mae'n llawer haws i ddatblygu eich gwybodaeth a chaffael y wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnoch, cyn mynd ymlaen ymhellach i'r cymhwyster.

**Max**

Ie, achos rydw i'n gwneud Lefel 2 ar hyn o bryd, felly rydw i ar y dechrau ac, yn fy marn i, mae dysgu'r wybodaeth sylfaenol a hefyd gweithio trwy gydol yr wythnos a mynd i'r coleg unwaith yr wythnos yn dda iawn ac wedi'i integreiddio'n dda iawn, i ddysgu mwy.

**Alex (cyfwelydd)**

Felly, er budd y rheini sy'n gwranddo ac sydd efallai'n poeni, ydych chi'n dweud ei fod yn debyg i ddull dysgu graddol, yn hytrach na chofrestru a chael eich taflu mewn ym mhen dwfn y pwll, fel petai?

**Emma**

Yn llwyr. Yn fy marn i, mae'n debycach i ddull graddol. Fel dywedodd Alice, oherwydd eich bod yn dechrau ar Lefel 2, rydych yn cael y cyfle i ddatblygu gwybodaeth dda iawn o fewnbynau dwbl, a gwybodaeth dda iawn o ddatganiadau ariannol. Bob blwyddyn, rydych yn adeiladu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd gennych yn barod.

**Alex (cyfwelydd)**

Gallaf yn sicr uniaethu â hynny fel rhywun sydd wedi bod yma ddwy flynedd ar leoliad gwaith. Mae'n broses o ddysgu graddol. Mae methiant a gwneud camgymeriadau i'w croesawu. Rydych chi'n gwybod nad ydych chi'n cael eich cosbi amdano, mae'r cyfan yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses ddysgu, felly dwi'n bendant yn gwybod beth rydych chi'n ei olygu. O ran y sefyllfa bresennol gyda'r coronafeirws, sut ydych chi wedi ymdopi â'ch rolau neu ddechrau eich rolau yn ystod y pandemig, a sut yn union ydych chi wedi addasu i hynny a'r heriau cysylltiedig?

### **Max**

Yn fy achos i, nid ydw i erioed wedi gweithio mewn swyddfa yn llawn amser o'r blaen, felly nid yw gweithio o bell yn broblem achos dyma'r norm i mi ar hyn o bryd. Er hynny, mae yna heriau bach os bydd problemau'n codi wrth weithio o bell, ond rydw i wedi derbyn cefnogaeth dda pan mae pethau fel yna wedi digwydd, ac rwy'n teimlo nad yw'r math o broblemau sy'n debygol o godi yn mynd i fod yn rhy ddifrifol.

### **Alice**

Pan ddechreuais i fy mhrentisiaeth, roeddwn yn gweithio fel rhan o dîm cyllid Swyddfa Archwilio Cymru, felly nid oedd gen i lawer o brofiad archwilio cyn y cyfnod clo cyntaf. Roedd hynny'n heriol i gychwyn. Nid oeddwn wedi ymweld â safleoedd rhai o'r cleientiaid ac nid oeddwn wedi cwrdd â'r cleientiaid, na'r tîm archwilio ychwaith. Ond, yn amlwg, diolch i *Teams*, roedd popeth yn gweithio'n iawn o ran hynny. Roedd yn newid llyfn iawn oherwydd rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'n timau ac rydym wedi cael nifer o gyfleoedd i ofyn cwestiynau a gweithio trwy unrhyw beth sy'n codi. Gweithiodd hynny'n dda iawn.

### **Emma**

Buaswn i'n cytuno â hynny. Rydw i wedi bod yn archwilio ers y cychwyn. Pan roedd yn rhaid i ni ddechrau gweithio o bell, gwnaethom ni ymateb yn gyflym iawn. Mae *Teams* yn ffordd wych o allu siarad gyda phobl. Ac, ar ben hynny, mae'n fwy effeithlon o ran defnydd amser hefyd.

### **Alex (cyfwelydd)**

Wrth i ni addasu i fyd ar ôl y cyfyngiadau clo, ar ôl y coronafeirws, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich patrymau gwaith a'ch bywydau gwaith yn newid? Ydych chi'n gweld eisiau'r rhyngweithio sy'n mynd law yn llaw â gweithio mewn swyddfa, ar y safle, neu ydych chi'n gobeithio bydd eich gwaith yn datblygu i fod yn fwy technolegol fyth, lle gallwch wneud mwy o waith o bell, o'ch cartrefi, a dilyn eich amserlenni eich hunain?

### **Emma**

Ar hyn o bryd, rydw i'n rhan o glwstwr y Gorllewin. Rydym ni wedi dechrau dychwelyd i'r swyddfeydd nawr, felly rydw i wedi bod yn mynd i'r swyddfa ddau ddiwrnod yr wythnos, gyda chwe chydweithiwr arall yn y swyddfa, ac mae hynny wedi bod o fudd mawr, er fy

mod o'r farn bod gweithio o gartref yn dda iawn hefyd. Mae mynd i'r swyddfa'n cynnig agwedd gymdeithasol. O weld pobl yn y byd go iawn, sy'n dda iawn, er bod hi'n beth da cael cydbwysedd rhwng dau ddiwrnod yn y swyddfa a thri diwrnod yn gweithio o adref.

### **Alice**

Cydbwysedd yw'r peth pwysicaf. Rydw i'n rhan o glwstwr De Cymru ac rydw i wedi dechrau mynd i'r swyddfa un diwrnod yr wythnos. Mae'r agwedd gymdeithasol yn neis iawn. Yn amlwg, ni allwn weithio gyda'n timau archwilio ar hyn o bryd, oherwydd dim ond 22 o bobl sy'n cael bod yn y swyddfa ar yr un pryd, ond pan fyddwn yn gallu mynd yn ôl a gweithio gyda'n timau archwilio... ni allwch roi pris ar fod yn yr un ystafell â phobl a gallu gofyn cwestiynau iddynt. Ond, wedyn, mae gweithio o adref yn fwy hyblyg. Felly, rhaid i ni ganfod y cydbwysedd wrth symud ymlaen.

### **Max**

Es i mewn i'r swyddfa'r diwrnod o'r blaen. Am y tro cyntaf mewn chwe mis, ers cychwyn y rôl a chwrdd â phobl a rhyngweithio. Nid yw'r profiad ar-lein yr un peth â chwrdd â phobl go iawn, lle gallwch ddod i adnabod pobl a gofyn am help os oes angen. Mae'n fanteisiol iawn yn fy marn i, er fy mod yn mwynhau'r hyblygrwydd o weithio o adref. Chi'n gwybod, gallu dewis eich oriau gwaith mewn ffordd sy'n gweddu pobl eraill hefyd.

### **Alex (cyfwelydd)**

Heb os, mae gan y ddau ddewis elfennau cadarnhaol a negyddol. Yn bersonol, rwy'n mwynhau'r ochr gymdeithasol o ddod i'r swyddfa, ac rwy'n fwy cynhyrchiol yn y swyddfa, er bod hynny, wrth gwrs, yn ddibynnol ar y math o unigolyn. Ar wahân i gwrdd ac i ryngweithio â phobl, beth ydych chi'n gobeithio bydd yn aros yr un peth o ran yr ymateb i'r coronafeirws, a beth fydd yn newid yn gyfan gwbl o ran eich bywyd gwaith?

### **Alice**

Cyn y cyfnod clo, roedd mynd i'r swyddfa'n ganolog i'r gwaith. Nid oedd cyfle i weithio o adref a dweud y gwir, yn enwedig i brentisiaid neu fyfyrwyr graddedig. Ond, wrth symud ymlaen, mae'n ddefnyddiol cael yr opsiwn o weithio o adref am un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, er hyblygrwydd. Yn fy marn i, dyna beth fydd yn dda wrth symud ymlaen. Ac, yn amlwg, gyda *Teams*, byddwn ni'n gallu gwneud hynny, achos bydd rhai pobl yn y swyddfa tra bod eraill yn gweithio o adref. Cydbwysedd yw'r peth, unwaith eto.

**Max**

Heb os, rwy'n cytuno o ran hyblygrwydd gweithio o adref a mynd i'r swyddfa, oherwydd, yn fy marn i, pan rydw i'n gweithio o adref ac yn gwybod beth rydw i'n ei wneud, gallaf wneud pethau... chi'n gwybod, dim ond un waith rydw i wedi bod i'r swyddfa ar hyn o bryd, ond rwy'n teimlo y byddaf yn fwy effeithlon pan na fydd angen cymorth arnaf, ond mae hynny'n dibynnu ar y ffordd rydych chi'n gweithio a'r math o unigolyn ydych chi.

**Emma**

Rwy'n cytuno gyda phawb. Yr hyblygrwydd, heb os. Yn fy marn i, mae sicrhau cyfathrebu da gyda'ch arweinydd yn hollbwysig. Os gallwn ni gynnal hynny, hoffwn ddewis pryd y gallaf weithio o adref a phryd y gallaf fynd i'r swyddfa.

**Alex (cyfwelydd)**

Gan edrych ar bethau yn fwy cyffredinol, eich rhaglenni prentisiaeth yn benodol, beth ydych chi wedi ei ddysgu o'ch profiadau?

**Max**

Yn sicr, rydw i wedi dysgu llawer dros y misoedd diwethaf. Boed yn waith archwilio, *Excel* neu hyd yn oed *Teams*, oherwydd rydym ni'n ei ddefnyddio mor rheolaidd. Ar ben hynny, rydw i wedi dysgu bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi darparu cymorth ardderchog i mi yn ystod fy mhrentisiaeth ac rwy'n gwerthfawrogi hynny'n fawr.

**Alice**

Heb os, rwy'n cytuno â hynny, oherwydd mae gennym ni gyd reolwr llinell ac, ers cael ein gorfodi i weithio o adref, maen nhw wedi bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â ni, felly mae'r cymorth wedi bod yn ardderchog. Ac, yn amlwg, rydych yn dysgu cymaint o wneud y gwaith, o ran archwilio a chyfrifeg. A hyd yn oed gwaith gweinyddol fel olrhain negeseuon e-bost a thafenni amser, sgiliau cyfathrebu, siarad â chleientiaid. Rydw i wedi dysgu cymaint ers cychwyn, o gymharu â phan adawais yr ysgol.

## **Emma**

Mae'r un peth yn wir i mi. Fel dywedodd Alice, rydych chi'n dysgu cymaint wrth wneud y rôl hon. Cymaint o bethau. I ni, yr ochr cyfrifeg gydag AAT, a'r ochr archwilio yn ein swydd bob dydd, a chyfathrebu gyda chleientiaid a'ch timau. Rydych yn dysgu cymaint.

## **Alex (cyfwelydd)**

Gallaf uniaethu gyda hynny, heb os. Rydw i wedi dysgu cymaint o sgiliau wrth weithio i Swyddfa Archwilio Cymru, ac rwy'n hynod ddiolchgar am hynny. I orffen, pa gyngor byddech chi'n ei roi i ymgeiswyr newydd, un ai am y rôl ei hun, neu am y broses ymgeisio?

## **Alice**

O ran y gwaith, gofynnwch lawer o gwestiynau, oherwydd dyna'r ffordd orau o ddysgu. Rydych yn dysgu trwy wneud camgymeriadau ac yna dysgu sut i wneud y gwaith yn gywir. Ac o ran y broses ymgeisio, gwnewch yn siŵr bod eich CV yn gynhwysfawr.

## **Max**

Rwy'n cytuno gyda hynny. Peidiwch â bod ofn ceisio unrhyw fath o waith sy'n cyrraedd eich desg. Peidiwch â bod ofn ceisio gwneud y gwaith a gwneud camgymeriadau. Y ffordd orau o ddysgu yw gwneud camgymeriadau a dysgu ohonynt.

## **Emma**

Ie, gwerthfawrogwch na fyddwch yn deall popeth ar unwaith. Mae hynny'n hollbwysig. Gofynnwch gwestiynau. A gwneud y gwaith o ddydd i ddydd.

## **Alex (Cyfwelydd)**

Mae prentisiaid ar raglen brentisiaid Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cael y cyfle i wneud secondiad, boed mewn adran arall o'r sefydliad, neu y tu allan i'r sefydliad. Mae Emma Thomas yn ymuno gyda mi yn awr. Mae Emma wedi cwblhau secondiad. Wyt ti eisiau cychwyn trwy esbonio'r hyn y gwnaethost ti ar dy secondiad?

## **Emma**

Fe wnes i secondiad 6 mis o hyd, rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2020, gydag Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roeddwn yn gweithio rôl ym maes

cyfrifeg, ac yn cydweithio'n agos iawn â'r tîm cyfrifeg. Y gwrthwyneb o fod yn archwilydd, felly.

**Alex (Cyfwelydd)**

I'r rhai nad ydyn nhw'n ymwybodol, wyt ti eisiau esbonio'n union beth mae'r corff hwnnw'n ei wneud a beth oedd eich rôl chi yno?

**Emma**

Mae Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn delio â chwynion gan y cyhoedd, yn bennaf yn ymwneud â'r GIG, ac roeddwn i'n gweithio rôl yn y tîm cyfrifeg. Roeddwn yn gwneud nifer o bethau gwahanol, gan gynnwys cysylltu â'r tîm archwilio mewnol. Fe wnes i ychydig o waith monitro cyllid, a pharatoi cyfrifon.

**Alex (Cyfwelydd)**

Sut brofiad cefaist ti?

**Emma**

Ardderchog. Mae'n debyg na allwn fod wedi gofyn am secondiad gwell. Rwy'n credu hefyd, oherwydd bod yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn dîm eithaf bach, cefais gyfle go iawn i ymwneud â phob math o feysydd gwahanol. Felly, roeddwn i'n gwneud pethau o ddydd i ddydd fel anfonebau a hefyd, oherwydd bod fy secondiad wedi para hyd at fis Ebrill 2020, roedd hynny'n golygu y cefais gyfle i baratoi cyfrifon diwedd blwyddyn hefyd. Felly, roedd yn secondiad da iawn ac yn lle da iawn i fynd.

**Alex (Cyfwelydd)**

Yn dy brofiad di, oedd y broses o ymgeisio am secondiad yn hawdd? Ac oeddet ti'n gwybod pa fath o secondiad roeddet ti eisiau ei wneud o flaen llaw, neu ai proses o ddewis rhwng opsiynau gwahanol oedd e?

**Emma**

Pan glywais am y secondiad gyda'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, fi oedd yr unigolyn cyntaf i fynd yno, felly roedd gen i ddiddordeb go iawn yn y cyfle, oherwydd mae gen i ddiddordeb yng ngwaith yr Ombwdsmon, ac roeddwn yn llawn cyffro i gael cychwyn y secondiad.



**Alex (Cyfwelydd)**

A beth wyt ti wedi'i gymryd o'r secondiad a'i gymhwyso i dy rôl fel prentis yn Swyddfa Archwilio Cymru?

**Emma**

Persbectif. Gweld pethau o'r ochr arall. Fel archwilwyr, rydym ni fel arfer yn delio â thimau cyllid awdurdodau lleol a byrddau GIG, ac, yn fy marn i, mae'r gallu i weld yr ochr arall, y systemau a'r gwaith bob dydd maen nhw'n ei wneud, wedi gwneud i mi werthfawrogi fe fwy, ac roedd hynny'n dda iawn i fi, a defnyddio fy AAT ochr yn ochr â hynny. Rydw i wedi rhoi hynny ar waith. Yn wir, yn ystod fy secondiad, roeddwn yn astudio ar gyfer fy arholiad cyllido. Felly, roedd hynny'n golygu fy mod yn gallu ymgorffori fy ngwaith archwilio fel rhan o fy secondiad, oedd yn fanteisiol iawn i mi.